# CYFARFOD O'R PWYLLGOR DEDDFAU

## COFNODION (LEG(2)-26-2005):

### Dyddiad y Cyfarfod: 1 Tachwedd 2005

### Amser y Cyfarfod: 9:30 a.m.

### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Glyn Davies (Cadeirydd) | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Janice Gregory | Ogwr |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Laura Jones | Dwyrain De Cymru |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

### Swyddogion

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |

| | |
|---|---|
| Joanest Jackson | Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |

## Gwasanaeth y Pwyllgorau

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Catherine Keane | Dirprwy Glerc |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb:

## Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf – LEG(2)-25-2005

2.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2005.

## Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd

3.1. Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau eu bod wedi ystyried oblygiadau'r Papur Gwyn ar waith y Pwyllgor Deddfu yng nghyfarfod y pwyllgor ar 12fed Gorffennaf, a phenderfynwyd trefnu ymweliad â Phwyllgor Dethol Ty'r Arglwyddi ar Rinweddau Offerynnau Statudol yn yr Hydref. Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau y byddai'r ymweliad hwn yn digwydd yn y gwanwyn oherwydd llwyth gwaith presennol Pwyllgor Ty'r Arglwyddi.

## Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried

4.1. Mewn perthynas â'r Offerynnau Statudol canlynol, cytunodd Aelodau y dylid gwneud yr adroddiadau ar ffurf drafft, i'w cyflwyno i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol:

### LC1156 – Gorchymyn Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cychwyn Rhif 11)(Cymru) 2005

### LC1158 – Gorchymyn Addysg (Ciniawau Ysgol am Ddim) (Credyd Pensiwn y Wladwriaeth) (Cymru) 2005

### LC1159 – Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2005

### LC1160 – Rheoliadau Tryptoffan mewn Bwyd (Cymru) 2005

## Camau i’w Cymryd

## Eitem 5: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

5.1 Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 8 Tachwedd 2005.